# GWOBR CYMDEITHAS OWAIN GLYNDŴR I GYN-FYFYRWYR

## CEFNDIR

Yn 2010, cafodd Prifysgol Glyndŵr rodd o hambwrdd arian gan Gymdeithas Owain Glyndŵr, i'w ddyfarnu er anrhydedd i gyn-fyfyriwr y Brifysgol.

Bydd yr hambwrdd yn cael ei arddangos yn llyfrgell y Brifysgol a bydd enw'r enillydd bob blwyddyn yn cael ei nodi ar fwrdd ochr yn ochr ag o.

## MEINI PRAWF GWOBR BENODOL

Mae'r wobr hon yn falch o gael ei henwi ar ôl gŵr a oedd yn coleddu dysg, yn caru ei wlad, yn cofleidio agwedd ryngwladol, ac yn gyson ddangos ymagwedd ysbrydoledig a mentrus at fywyd. Mae ei ysbryd wrth galon Prifysgol Glyndŵr ac felly dyfarnir y wobr i gyn-fyfyriwr cymwys sydd wedi gwneud cyfraniad rhagorol yn unrhyw un o'r meysydd canlynol:

- hyrwyddo dysg ac addysg
- hyrwyddo dysg ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg
- hyrwyddo Cymru
- gwella cysylltiadau rhyngwladol
- menter ac arloesedd

Gall cyn-fyfyrwyr cymwys (ni chaiff aelodau presennol[1] o staff* eu henwebu ar gyfer y gwobrau hyn) enwebu eu hunain neu gael eu henwebu gan unigolyn* neu sefydliad arall. Bydd gofyn i unrhyw un sy'n gwneud enwebiad ddarparu rhesymau penodol dros ei enwebiad ar y ffurflen enwebu. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyfer yr enillydd yn cael ei wneud gan Bwyllgor y Gwobrau.

* nad oes rhaid iddo/iddi fod yn gyn-fyfyriwr Prifysgol Glyndŵr

## RHEOLIADAU GWOBRAU'R BRIFYSGOL

- I fod yn gymwys am wobr, rhaid i enwebeion fod wedi astudio ym Mhrifysgol Wrecsam neu yn un o'i sefydliadau rhagflaenol ac wedi cael gwobr gan Brifysgol Wrecsam, Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Cymru, Prifysgol Caer, Edexcel neu un o'i chyrsiau Proffesiynol. Nid yw hyn yn cynnwys myfyrwyr sy'n astudio yng Ngholegau/Sefydliadau Partner, nac ychwaith graddau a addysgir yn llwyr drwy ddysg ar-lein o bell.

- Mae gwobrau ar gael i gyn-fyfyrwyr llawn amser neu ran amser a oedd wedi cofrestru yn y Brifysgol neu unrhyw un o'i sefydliadau rhagflaenol, yn amodol iddynt fodloni'r meini prawf cymhwysedd fel a nodir yn y rheoliadau gwobr unigol.

---

[1] Mae "staff" yn y cyd-destun yn cyfeirio at y rhai sydd â chontractau cyflogaeth gyda'r Brifysgol (Gwasanaethau Academaidd a Phroffesiynol ar bob lefel).

- Os oes mwy nag un cyn-fyfyriwr o deilyngdod cyfartal, bydd enw bob cyn-fyfyriwr llwyddiannus yn cael ei llin gerfio ar fwrdd cyfochr â'r hambwrdd, a bydd bob cyn-fyfyriwr llwyddiannus yn derbyn tystysgrif gwobr Prifysgol.

- Os yw cynfyfyriwr llwyddiannus yn gymwys am fwy nag un wobr (fel cynfyfyriwr neu fel myfyriwr) fe'u hargymellir fel arfer ar gyfer un wobr yn unig, oni bai bod gwahaniaeth penodol yn y meini prawf dyfarnu sy'n cyfiawnhau dyfarnu mwy nag un wobr

- Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ymatal rhag dyfarnu gwobr arbennig os, mewn unrhyw flwyddyn, ystyrir na chafodd y lefel gyflawniad angenrheidiol ei gyrraedd.

- Mae'n bosibl i gyn-fyfyriwr beidio â chael ei (h)ystyried os na lwyddodd i dalu ei ffioedd yn llawn ac unrhyw daliadau eraill sy'n ddyledus i'r Brifysgol neu unrhyw un o'i sefydliadau rhagflaenol, yn cynnwys dychwelyd unrhyw offer neu eitemau'r llyfrgell a fenthycwyd.

- Dim ond unwaith y flwyddyn y caiff cynfyfyrwyr eu henwebu/ cânt eu henwebu eu hunain.

- Gellir enwebu cynfyfyrwyr/caiff cynfyfyrwyr eu henwebu eu hunain mewn unrhyw nifer o flynyddoedd, gan gynnwys y cyn-fyfyrwyr hynny sy'n enillwyr blaenorol, cyhyd ag y bydd pob enwebiad ar gyfer cyflawniad rhagorol gwahanol.